# Meysydd gweithredu allweddol i'r sefydliad yn ystod 2014–15

| Adran | Gweithred |
|---|---|
| **Adran Addysg a Sgiliau** | 1. Bydd Is-adran y Gymraeg yn cynnal ymarfer ailstrwythuro yn ystod 2014-15 er mwyn sicrhau bod strwythur yr adran yn briodol ar gyfer blaenoriaethau a pholisïau sy'n newid ac esblygu. Bydd hefyd yn helpu'r adran i weithio'n fwy strategol gydag adrannau eraill o fewn y sefydliad a thu hwnt.<br><br>2. Sicrhau bod y camau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu'r Safonau yn parhau i gael eu gweithredu.<br><br>3. Sicrhau bod safonau'r Gymraeg yn cael eu cyflwyno ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.<br><br>4. Canolbwyntio ar y defnydd o'r Gymraeg fel iaith bob dydd ar draws Cymru a gweithredu'r camau a nodwyd yn Strategaeth y Gymraeg, *'Iaith fyw: iaith byw'*, a 'Bwrw Mlaen', y datganiad polisi ar y Gymraeg ar gyfer y tair blynedd nesaf.<br><br>5. Mae cynyddu nifer y staff sy'n gallu siarad ac ysgrifennu'n Gymraeg yn hyderus yn y gwaith yn un o brif flaenoriaethau AdAS. Neilltuwyd cyllid i staff allu dilyn cyrsiau Cymraeg dwys yn ystod 2014-15, a hefyd i gynnal sesiynau i godi ymwybyddiaeth o sut i drefnu gwaith dwyieithog yn well.<br><br>6. Cynyddu nifer Pencampwyr y Gymraeg a Chyd-drefnyddion Dwyieithrwydd yr Adrannau er mwyn i AdAS allu cyfathrebu a chasglu gwybodaeth yn fwy effeithiol ar safonau'r Gymraeg gan sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'r canllawiau newydd.<br><br>7. Sicrhau bod is-adrannau'n cadw cofnod o ddewis iaith cwsmeriaid mewn cronfeydd data o wybodaeth gyswllt cwsmeriaid.<br><br>8. Cynhyrchu Strategaeth Sgiliau Dwyieithog er mwyn sicrhau bod digon o siaradwyr Cymraeg a'u bod yn y swyddi cywir.<br><br>9. Ystyried canfyddiadau adroddiad Estyn a gyhoeddwyd ar ran Llywodraeth Cymru ar y Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen i archwilio datblygu'r Gymraeg fel iaith gyntaf mewn ysgolion cynradd nas cynhelir. |

| | |
|---|---|
| | 10. Lansiwyd Cynllun Gweithredu Sgiliau ym mis Gorffennaf 2014. Ei brif nod yw cefnogi Cymru wrth iddi ddatblygu'n genedl hyfedr a chreu'r amodau a fydd yn cynorthwyo busnesau yng Nghymru i dyfu a ffynnu. Ystyrir yr angen i ddarparu sgiliau ôl-19 drwy gyfrwng y Gymraeg yn unol ag anghenion cyflogwyr, ac un o gamau gweithredu allweddol y cynllun oedd cyhoeddi 'Mesurau Perfformiad Sgiliau' sy'n cynnwys mesur ar gyfer sgiliau Cymraeg.<br><br>11. Drwy eu cyllid ar gyfer y Coleg Cenedlaethol yn 2014-15, bydd angen i CCAUC ystyried ar y cyd â phartneriaid eraill goblygiadau a chanlyniadau cyflwyno gofyniad mynediad penodol yn ymwneud â'r Gymraeg ar gyfer Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon.<br><br>12. Bydd hefyd angen i CCAUC weithio gyda partneriaid allweddol i ddatblygu a gweithredu tystysgrif cymhwysedd yn ymwneud â'r Gymraeg ar gyfer Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon i ddarpar athrawon sy'n dymuno addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>13. Drwy newidiadau i fanyleb y contract ar gyfer darparu Prentisiaethau yn 2015-19 i gryfhau dysgu dwyieithog a Chymraeg ymhellach bydd darparwyr yn gweithio tuag at dargedau unigol mewn cynllun gweithredu yn ymwneud â'r Gymraeg a bydd eu cynnydd yn cael ei fonitro.<br><br>14. Gwnaed newidiadau i'r meysydd cofnodi data yng Nghofnod Dysgu Gydol Oes Cymru er mwyn cofnodi'n well y defnydd o'r Gymraeg mewn dysgu seiliedig ar waith. Bydd hyn y sicrhau dealltwriaeth well o'r ddarpariaeth Gymraeg ac yn cydnabod y gweithgarwch a wneir ar hyn o bryd gan ddarparwyr nad oedd yn cael ei gofnodi gynt.<br><br>15. Cyhoeddwyd yr adroddiad Anghenion Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector ym mis Ebrill 2014 ar y galw presennol a'r galw yn y dyfodol am sgiliau Cymraeg gan gyflogwyr yng Nghymru. Bydd canfyddiadau'r adroddiad yn helpu Llywodraeth Cymru i gynllunio prentisiaethau'r dyfodol yn briodol gan gymryd i ystyriaeth angen cyflogwyr am sgiliau Cymraeg.<br><br>16. O 2015 ymlaen, bydd gofyn i ymgeiswyr ar gyfer grant y Cyrff Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol ystyried sut y gellir defnyddio'r cyllid i ddarparu mwy o gyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg, cynyddu eu hyder a'u rhugldер yn yr iaith a chodi ymwybyddiaeth o werth y Gymraeg fel rhan o'u gwaith ieuenctid.<br><br>17. O dan y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio Rhanbarthol, rhan o'r her ar gyfer y consortia yn ystod y cyfnod nesaf fydd sicrhau bod y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a'r grant |

| | |
|---|---|
| | Cymraeg mewn Addysg wedi'u halinio ar draws pob un o'r awdurdodau lleol o fewn y consortia rhanbarthol. Hynny er mwyn sicrhau cysondeb wrth ddatblygu rhagoriaeth mewn addysgeg ar draws y sectorau Cymraeg a dwyieithog ac wrth ddarparu'r Gymraeg fel ail iaith.<br><br>18. Caiff Porth Sgiliau ei ddatblygu ar gyfer unigolion a chyflogwyr er mwyn darparu gwasanaeth broceru cyson i gael gafael ar gymorth yn ymwneud â sgiliau a chyflogaeth. Bydd yn cael ei ddefnyddio i helpu cyflogwyr i nodi a gweithredu ar sgiliau eu gweithlu, gan gynnwys cydnabod y manteision busnes sy'n gysylltiedig â sgiliau Cymraeg mewn sectorau allweddol. |
| **Cyllid a Gwasanaethau Canolog** | 19. Bydd cyfleoedd yn cael eu cymryd yn y cyfnod nesaf i amlinellu sut mae'r sefydliad yn cefnogi ac yn annog pobl i weithio'n ddwyieithog, yn ogystal ag amlinellu'n cyfrifoldebau ynghylch safonau'r Gymraeg. Mae cynllun cyfathrebu mewnol graddol yn cael ei ddatblygu gydag Uned y Gymraeg.<br><br>20. Bydd ymgyrch fewnol yn ymwneud â'r Strategaeth Sgiliau Dwyieithog.<br><br>21. Yr her o hyd i Academi Wales yw cynyddu'r galw am ei deunyddiau Cymraeg, gan gynnwys cyflwyno'i rhaglenni dysgu a datblygu a darparu adnoddau ar ei gwefan.<br><br>22. Bydd Gwerth Cymru yn ymchwilio i gyfleoedd newydd i ystyried yr iaith yng Nghyfarwyddebau Caffael newydd yr UE, a fydd yn dod i rym yn hydref 2014. Er enghraifft 'Erthygl 70 - Amodau ar gyfer perfformiad contractau' a fydd yn caniatáu defnyddio amodau contract yn fwy pendant, yn enwedig lle mae'r amodau hyn yn ymwneud ag ystyriaethau cymdeithasol ac amgylcheddol.<br><br>23. Yr her i Gwerth Cymru fydd ymgorffori a hybu gofynion safonau newydd y Gymraeg mewn polisi a phrosesau caffael o fewn Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru.<br><br>24. Bydd angen i Gwybodaeth ac Ystadegau nodi risgiau posibl sy'n gysylltiedig â Safonau'r Gymraeg a'r hyn y mae'n ei olygu ar gyfer cyhoeddi ystadegau a mapiau.<br><br>25. Mae Gwybodaeth ac Ystadegau hefyd wedi nodi bod diffyg staff Cymraeg eu hiaith, sy'n gosod her ar gyfer y cyfnod nesaf wrth i ni symud tuag at y safonau.<br><br>26. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Gwybodaeth ac Ystadegau wedi gwneud mwy o ymdrech i sicrhau bod ystyriaethau iaith yn cael eu prif-ffrydio yng ngwaith ymchwil Llywodraeth Cymru. Mae'r camau sydd wedi cael eu cymryd yn cynnwys cyflwyno cwestiynau penodol ynghylch y Gymraeg wrth werthuso rhaglenni hyfforddi a sgiliau. Bwriedir i'r rhaglen hon ategu'r nod o brif-ffrydio'r |

| | |
|---|---|
| | Gymraeg ar draws meysydd polisi.<br><br>27. Oherwydd y cynigion i roi'r gorau i gyhoeddi cyfrolau compendia o ystadegau, mae angen i ni sicrhau bod y tablau electronig ar gael yn ddwyieithog. Mae Gwybodaeth ac Ystadegau'n gobeithio bwrw ymlaen â chynlluniau i gyfieithu StatsCymru yn llwyr ond mae adnoddau'n gwneud hyn yn anodd.<br>28. Prif her Is-adran y Cabinet ar gyfer y cyfnod nesaf yw bodloni'r galw am hyfforddiant Cymraeg gan staff yr is-adran.<br><br>29. Bydd Is-adran yr Ysgrifennydd Parhaol yn blaenoriaethu gwella sgiliau staff sydd eisoes yn meddu ar rai sgiliau Cymraeg er mwyn sicrhau ein bod yn gallu bodloni Safonau'r Gymraeg.<br><br>30. Mae'r Is-adran Materion Cyfansoddiadol a Chysylltiadau Rhynglywodraethol yn gyfrifol am dribiwnlysoedd datganoledig – mae'r rhain yn annibynnol ar y Llywodraeth ac rydym yn disgwyl y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ysgrifennu'n uniongyrchol at y tribiwnlysoedd ynghylch gosod a chymhwyso Safonau'r Gymraeg. Nid yw'r Uned Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd yn cadw gwybodaeth fonitro ynghylch cymhwyso'r cynllun presennol. Fodd bynnag, efallai y bydd angen mynd i'r afael â hyn yng nghyd-destun y safonau newydd a bydd hyn yn her sylweddol i ni at y dyfodol.<br><br>31. Mae'n debygol y bydd angen i'r Adran Gwasanaethau Cyfreithiol gynhyrchu oddeutu 320 o Offerynnau Statudol Cymru yn y cyfnod nesaf. Mae pwysau cynyddol ar yr adnoddau sydd eu hangen ar yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol i ymateb i flaenoriaethau newydd Llywodraeth Cymru yn golygu y bydd yn fwyfwy anodd i barhau fel yn y blynyddoedd diwethaf i ragori ar y targedau uchel ar gyfer cynhyrchu offerynnau deddfwriaethol dwyieithog dros y deuddeg mis nesaf a thu hwnt.<br><br>32. Bydd Is-adran yr Ysgrifennydd Parhaol yn datblygu gweithio dwyieithog yn y sefydliad drwy gynyddu sgiliau Cymraeg a dibynnu'n llai ar y Gwasanaeth Cyfieithu.<br><br>33. Mae'r Is-adran Ymgysylltu ac Arloesi wedi nodi deg mater a allai godi mewn perthynas â negeseuon brys a bydd yn datblygu cyfres o negeseuon dwyieithog safonol y gellid eu defnyddio mewn ymateb.<br><br>34. Sicrhau bod polisi ymdrin â galwadau ffôn ar waith yn yr Adrannau Canolog. |

| | |
|---|---|
| | 35. Sicrhau bod camau gweithredu'r cynllun gweithredu yn cael ei monitro a bod yr Uwch Dimau Rheoli'n cael adroddiadau cynnydd o leiaf bob chwarter.<br><br>36. Codi ymwybyddiaeth am safonau'r Gymraeg yn yr Adran Gyfathrebu.<br><br>37. Adolygu safonau marchnata allanol a chydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg. |
| **Llywodraeth Leol a Chymunedau** | 38. Wrth lenwi'r holiadur llinell sylfaenol fel rhan o'r ymateb i Ymchwiliad Comisiynydd y Gymraeg, daeth yn amlwg, er bod yr Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith presennol, mae'r sefyllfa'n amrywio ar draws Is-adrannau ac Arolygiaethau annibynnol. Mae hyn yn her arbennig o ran symud tuag at y gofynion o dan Safonau'r Gymraeg.<br><br>39. Er ein bod yn hyderus y byddwn yn diwallu'r rhan fwyaf o'r safonau cyflenwi gwasanaethau, llunio polisi a hybu, gallai fod peth amrywiaeth yn y gydymffurfiaeth gychwynnol. Bydd angen gwaith sylweddol i sicrhau sgiliau Cymraeg eang at y dyfodol. Ceir pryderon penodol ynghylch y safonau gweithredu a chadw cofnodion.<br><br>40. Bydd symud tuag at gyflwyno Safonau'r Gymraeg yn gyfle i ni adnewyddu strategaeth sgiliau dwyieithog yr adran a gweithio gydag unigolion i wella'u sgiliau Cymraeg.<br><br>41. Parhau i sicrhau bod y Cynllun Iaith, a chyflwyniad safonau'r Gymraeg, yn cael eu hystyried, eu hybu a'u cynnwys ym mhob gweithgarwch polisi a gweinyddu (lle bo'n berthnasol).<br><br>42. Bydd yr ymarfer Cwsmer Cudd yn cael ei redeg eto ym mis Medi a bydd yn cofnodi'r holl ymatebion er mwyn adeiladu ar yr ymarfer yn y dyfodol.<br><br>43. Sicrhau bod gwefan Llywodraeth Cymru yn cael ei defnyddio i'w llawn botensial a'i bod yn parhau i gyfathrebu'n ddwyieithog â rhanddeiliaid a'r cyhoedd.<br><br>44. Pob is-adran i gyfeirio at y Gymraeg yn nhelerau ac amodau grantiau a pharhau i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried, ei hybu a'i chynnwys yn y telerau a'r amodau sy'n sail i egwyddorion a gweinyddu grantiau. |

| | |
|---|---|
| | 45. Mae Cyd-drefnyddion a Hyrwyddwr y Gymraeg yn gweithio gyda'r tîm Busnes Adnoddau Dynol i wella sgiliau defnyddwyr Cymraeg presennol ac annog staff i fanteisio ar hyfforddiant Cymraeg.<br><br>46. Bydd yr Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau hefyd yn adnewyddu Cynllun Gweithredu'r Gymraeg i ystyried Safonau'r Gymraeg.<br><br>47. Bydd gwaith ar ddiwygio llywodraeth leol fel rhan o'r gwaith ehangach ar Ddiwygio Gwasanaethau Datganoledig hefyd yn cynnig cyfleoedd i ystyried ffyrdd o hybu'r defnydd o'r Gymraeg a phrif-ffrydio ystyriaethau dwyieithog mewn perfformiad a chraffu.<br><br>48. Ymchwilio i ffyrdd o godi hyder pobl sydd wedi colli rhywfaint ar eu Cymraeg fel eu bod yn dechrau defnyddio'u sgiliau yn y gweithlu. |
| **Dyfodol Cynaliadwy** | 49. Datblygu Strategaeth Sgiliau Dwyieithog Adrannol.<br><br>50. Datblygu sgiliau drafftio (yn y Gymraeg) tîm y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid o fewn Taliadau Gwledig (y sawl sy’n siarad Cymraeg yn rhugl).<br><br>51. Bydd Cadw'n ystyried y ffordd orau o ddatblygu a chyflawni ei amserlen o ddigwyddiadau a gweithgareddau dysgu ar ei safleoedd ac oddi ar ei safleoedd, gan gynnwys darpariaeth Gymraeg.<br><br>52. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi comisiynu adnodd dwyieithog ar gyfer athrawon ac artistiaid/sefydliadau celfyddydol ynghylch gwella sgiliau llythrennedd a rhifedd drwy'r celfyddydau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd y gwaith a wneir gan Estyn ar gyfer adolygiad arfer gorau o'r Celfyddydau yng Nghyfnod Allweddol 2 yn cynnwys ystyriaeth o unrhyw wahaniaethau amlwg rhwng y safonau yr arsylwir arnynt yn ystod ymweliadau ag ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg.<br><br>53. O fewn maes polisi'r Newid yn yr Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol bydd cyfle i siaradwyr Cymraeg gynnal sesiynau sgiliau Cymraeg ar gyfer y cydweithwyr hynny sy'n awyddus i ddysgu.<br><br>54. Datblygu System Gweinyddu Achosion Swyddogion Rhenti (ROCAS) a allai wella ymhellach allu'r |

| | |
|---|---|
| | system bresennol i hwyluso gweithio'n ddwyieithog/drwy'r Gymraeg a datblygu Cofrestr ar-lein ar gyfer Rhenti Teg a fydd yn ddwyieithog o safbwynt dewisiadau chwilio a chynhyrchu dogfennau.<br><br>55. Bydd Is-adran y Tir, Natur a Choedwigaeth yn cyfathrebu mewn modd mwy dwyieithog â'r cyhoedd ynghylch Iechyd Planhigion, Plaladdwyr, Bywyd Gwyllt, Hadau a Rhywogaethau Estron Goresgynnol.<br><br>56. Bydd Taliadau Gwledig yn rhoi blaenoriaeth i ddatblygu sgiliau ysgrifennu Cymraeg staff y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid a hybu hyfforddiant cyfrwng Cymraeg ar draws safleoedd Taliadau Gwledig Cymru.<br><br>57. Caiff camau eu cymryd er mwyn helpu ceidwaid Cadw sy'n ymwneud â'r cyhoedd â'u Cymraeg.<br><br>58. Sicrhau bod digwyddiadau Cadw'n gwbl ddwyieithog.<br><br>59. Bydd arweinlyfrau newydd Cadw'n cael eu cynhyrchu yn y Gymraeg a'r Saesneg.<br><br>60. Mynd ati i gyfieithu rhai ffurflenni morol ee trwyddedau ar gyfer cychod pysgota, taflenni cofnodi etc.<br><br>61. Sicrhau bod cronfeydd data Dyfodol Cynaliadwy'n datblygu swyddogaeth sy'n ei gwneud hi'n bosibl i ddewis iaith.<br><br>62. Bydd Uned Rheoli Cynllun y Polisi Amaethyddol Cyffredin yn sicrhau bod siaradwr Cymraeg ar gael ar gyfer y llinell ffôn bob amser |
| **Yr adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** | 63. Hybu a chodi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'i diwylliant.<br><br>64. Darparu hyfforddiant i staff fel y nodwyd yn yr archwiliad o sgiliau Cymraeg.<br><br>65. Penodi ymarferwyr Cymraeg.<br><br>66. Mae angen i'r Adran sicrhau bod ganddi ddigon o staff dwyieithog, a'r rheini wedi'u lleoli ar y lefelau |

| | |
|---|---|
| | priodol ac yn y mannau priodol.<br><br>67. Adeiladu ar seiliau strategaeth Mwy na Geiriau i sicrhau bod gan y strategaeth sylfaen gadarn a bod y gweithlu yn ymwybodol o ddewis iaith defnyddwyr, boed yn siaradwyr Cymraeg ai peidio.<br><br>68. Bydd gwaith hefyd yn dechrau ar y strategaeth a fydd yn dilyn Mwy na Geiriau o 2016 ymlaen. Bydd angen ystyried argymhellion yr adolygiad Gofal Sylfaenol wrth ddatblygu'r strategaeth newydd.<br><br>69. Mae'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio wedi cydnabod bod ganddi nifer gyfyngedig o staff sydd â'r sgiliau a'r hyder i weithio yn Gymraeg. Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â hyn, ond bydd cyfle pellach yn y cyfnod nesaf i adeiladu ar y gwaith hwn.<br><br>70. Mae CAFCASS Cymru yn ymrwymedig i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth ymysg pob aelod o staff o'r Gymraeg a'i diwylliant. Mae'r Uwch Dîm Rheoli wedi cymeradwyo’r gweithgarwch hwn, sydd i'w weld yng Nghynllun Dysgu a Datblygu CAFCASS Cymru 2014/15.<br><br>71. Bydd CAFCASS Cymru yn gwneud archwiliad o sgiliau Cymraeg ei staff, a bydd y canlyniad yn pennu natur a lefel gofynion hyfforddi staff y sefydliad yn y dyfodol, o 2014/15 ymlaen.<br><br>72. Yn dilyn adroddiad diweddar Comisiynydd y Gymraeg ar Wasanaethau Cymraeg mewn Gofal Sylfaenol, mae canfyddiadau'r Comisiynydd yn awgrymu bod heriau sylweddol yn bodoli, yn enwedig o ran codi ymwybyddiaeth, hyfforddi a datblygu ac Egwyddor y Cynnig Rhagweithiol yn Mwy na Geiriau.<br><br>73. Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith gwaith drwy annog ymatebion i ymgynghoriadau a phresenoldeb mewn digwyddiadau cyhoeddus.<br><br>74. Mae'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd wrthi’n cynnal rhaglen i ailstrwythuro'r seilwaith a'r rhaglenni y mae'n eu hariannu. Bydd angen i bob deiliad grant newydd llwyddiannus gytuno â thelerau ac amodau sy'n nodi bod yn rhaid dilyn polisi iaith eu prif sefydliad, ac y dylid dilyn polisi iaith Llywodraeth Cymru os nad oes polisi o'r fath yn bodoli. |

| | |
|---|---|
| **Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth** | 75. Bydd yr Adran yn parhau i sicrhau bod yr holl adnoddau i'r cyhoedd yn hygyrch ac yn ddwyieithog. Bydd rhywfaint o hyn yn cael ei gyflawni drwy ddatblygu gwefannau a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.<br><br>76. O ran Trafnidiaeth, byddwn yn gweithio i wella arwyddion dwyieithog. Byddwn yn defnyddio safonau'r Gymraeg fel sylfaen i'n gwelliannau.<br><br>77. Bydd yr Adran yn manteisio ar gyfleoedd i barhau i gynyddu'r defnydd o wasanaethau Cymraeg drwy well hyrwyddo a darpariaeth.<br><br>78. Mae tîm Busnes Cymru wedi gweld bod nifer o siaradwyr Cymraeg yn defnyddio ffrydiau cyfryngau cymdeithasol Saesneg yn unig. Bydd yr Adran yn annog defnyddwyr o'r fath i ddefnyddio'r opsiynau Cymraeg a Saesneg.<br><br>79. Bydd yr adran yn parhau i hyrwyddo'r Gymraeg drwy brif wefan Busnes Cymru a'r cyfryngau cymdeithasol cynyddol.<br><br>80. Yn 2014-15 bydd mwy o ffocws ar ddatblygu tudalennau Sketchbook Cymraeg, sydd wedi sicrhau cyfranogaeth bron yn gyfartal rhwng Cymraeg a Saesneg.<br><br>81. Bydd Maes Awyr Caerdydd yn canolbwyntio ar ddarparu arwyddion dwyieithog ar draws y maes awyr.<br><br>82. Mae materion fel datblygu Maes Awyr Caerdydd; Pwerdy Niwclear yr Wylfa a chymorth busnes yn cael eu hasesu am gyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg. |